# Rhieni, Gofal Plant a Chyflogaeth
# Parents, Childcare and Employment

# PaCE

UNDEB EWROPEAIDD
EUROPEAN UNION

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Cronfa Gymdeithasol Ewrop
European Social Fund

Rhieni, Gofal Plant
a Chyflogaeth
Parents, Childcare
and Employment

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Menter ar y cyd a gefnogir gan Lywodraeth Cymru a'r Ganolfan Byd Gwaith

## Beth fydd Rhieni, Gofal Plant a Chyflogaeth (PaCE) yn ei gynnig?

- Bydd PaCE yn helpu rhieni/gofalwyr sy'n ddi-waith i gael hyfforddiant a swyddi.
- Nod PaCE yw i ariannu a darparu dulliau o oresgyn **problemau gofal plant** er mwyn i rieni/gofalwyr allu paratoi ar gyfer cyfleoedd am waith a manteisio arnyn nhw.
- Bydd Cynghorwyr Cyflogaeth Rhieni  yn cysylltu â rhieni i drafod, o'i **gwirfodd**, a sefydlu nodau realistig y mae'n bosibl eu cyrraedd.
- Bydd rhieni'n cael help wedi ei deilwra'n arbennig ar eu cyfer gan eu Cynghorydd Cyflogaeth Rhieni yn eu cymuned leol.
- Byddant yn helpu i wella sgiliau, datrys problemau ynglŷn â diffyg hyder/hunan-barch, ac yn symud rhieni/gofalwyr yn nes at gyflogaeth gynaliadwy.

## Pwy all PaCE eu helpu?

- Rhieni di-waith sy'n 25 oed neu'n hŷn.
- Rhieni ifanc (16-24) sydd Ddim Mewn Addysg, Cyflogaeth na Hyfforddiant (NEET).

## Pa rwystrau sy'n wynebu rhieni?

Bydd cynghorwyr yn trafod gyda'r rhiant/gofalwr ac yn nodi eu rhwystrau. Dyma rai o'r rhwystrau posibl rhag gallu cael swydd a'i chadw:

- Trefniadau gofal plant yn methu
- Diffyg cyfleoedd i hyfforddi
- Cost
- Ardal/Teithio.

## Gall cynghorwyr PaCE helpu i gael gwared â rhwystrau

Bydd cynghorwyr yn cynnig yr help isod:

- Cynnig cymorth unigol mewn lleoliadau sy'n ystyriol o rieni, gan eich helpu i chwilio am waith a hyfforddiant
- Eich helpu i wybod pryd rydych chi ar eich ennill wrth weithio.
- Cynnig cyngor ac arweiniad ar hunangyflogaeth
- Rhoi cymorth â chostau gofal plant cyn cael swydd
- Rhoi cyngor ynglŷn â darparwyr gofal plant cofrestredig sydd ar gael yn lleol a'r gost.

Cymorth â gofal plant er mwyn i'r rhieni allu:

- Gwneud gwaith gwirfoddol
- Manteisio ar Dreialon Gwaith /Profiad Gwaith
- Mynd ar gyrsiau hyfforddi i ddiweddaru eu sgiliau.

## A all PaCE eich helpu chi?

Plîs cysylltwch â

Cynghorydd Cyflogaeth Rhieni

Rhif Ffôn

## Cysylltiadau defnyddiol

**PaCE@cymru.gsi.gov.uk**

OGL © Hawlfraint y Goron 2016 WG28183 ISBN argraffu 978 1 4734 6149 9